04.11.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Edrych 'Dan Do' ar rhai o dai mwyaf hyfryd Cymru

Mae'r cynllunydd tai Mandy Watkins a'r cyflwynydd Aled Samuel yn teithio ar hyd a lled y wlad i ymweld â rhai o dai mwyaf chwaethus, diddorol ac unigryw Cymru mewn cyfres newydd o **Dan Do** ar S4C.

I ddechrau'r gyfres mae Mandy ac Aled yn ymweld â thŷ ffrâm dderw sy'n gartref unigryw ar Ynys Môn; cartref Edwardaidd â dylanwad Ffrengig yn Llanelli a byngalo o'r 1920au sydd wedi cael estyniad rhyfeddol yn Y Fenni.

Mae 'Cynefin', sef cartref Julie Schofield a'i gwr Jonathan ar Ynys Môn, yn creu argraff fawr ar Aled a Mandy.

"Tŷ ffrâm bren derw ydy 'Cynefin' lle mae'r coed yn allweddol yn yr adeiladwaith yn ogystal â'r edrychiad. Mae'n gartref go unigryw tu fewn a thu fas," meddai Aled.

Wnaeth Julie a Jonathan, sy'n wreiddiol o Ynys Môn, adeiladu Cynefin o'r newydd ar ôl symud yn ôl i'r ardal o'r Peak District. Ac er bod y tŷ yn un newydd mae'r cwpl wedi defnyddio technegau a deunydd traddodiadol yn yr adeiladwaith.

Meddai Julie: "Penderfynom ni fynd am y ffrâm dderw oherwydd mae o'n llawn cymeriad yn fy marn i ac yn rhan o strwythur y tŷ. Mae o'n onest - chi'n cael gweld beth ydy'r tŷ wrth gerdded i mewn. Mae'n ddefnydd naturiol ac mae o wedi newid lot ers i ni symud mewn. Chi'n gallu gweld bod o wedi hollti yn ambell i le ac mae o'n troi a symud - mae hynny'n apelio.

"Y golau yw'r peth dwi'n mwynhau mwyaf. Dwi'n licio edrych allan a theimlo fy mod i'n eistedd tu allan hyd yn oed pan dwi'n eistedd tu mewn."

Mae Mandy yn holi Julie beth sydd yn ei hysbrydoli hi o ran steil y tŷ.

"Sai'n gwybod beth yw steil fi rili," meddai Julie. "Fi'n gwybod be' dw i'n licio - pethau naturiol a reit clasurol, a lliwiau distaw gydag ambell i bop o liw. Mae pethau wedi eu casglu dros y blynyddoedd a dwi'n disgwyl beth sy'n mynd i le."

"Da ni'n dau yn teimlo'n lwcus iawn bod yma. Mae'r tŷ ei hun yn meddwl lot i ni. Ond cael dod nôl adra i fyw...mae'n neud imi deimlo reit emosiynol."

Hefyd yn y rhaglen mae Mandy yn ymweld â darn bach o Baris yng nghanol Llanelli. Mae Heidi Schoner wedi creu cartref chic, sy'n llawn 'joie de vivre' ac yn deyrnged i bob dim Ffrenig.

Mae Heidi wrth ei bodd gyda steil Ffrenig a Swedaidd hefyd ac yn cael llawer o syniadau ar Instagram.

Meddai Mandy: “Mae’r edrychiad Ffrenig yn medru bod un anodd ei wireddu. Yn aml iawn mae pobl yn gorwneud hi ond mae Heidi wedi llwyddo creu ystafelloedd bendigedig.”

Mae Aled yn ymweld â byngalo o’r 20au yn y Fenni sydd wedi cael sbin modern diolch i estyniad arbennig.

“Enw’r byngalo yw ‘Tŷ Bach’ ond diolch i Anna Roberts a’i gŵr Paul, dyw e ddim yn dŷ bychan mwyach,” meddai Aled. “Mae’n enghraifft berffaith o sut gall estyniad pwrpasol drawsnewid cartref yn gyfan gwbl.”

Ymunwch â Mandy ac Aled a dewch i gael pip tu mewn i rai o dai mwyaf diddorol Cymru yn Dan Do sy’n dechrau ar S4C ar nos Fercher 16 Tachwedd.

**Dan Do**
**Nos Fercher 16 Tachwedd 8.25, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

03.11.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Raising the roof on some of Wales's most beautiful homes

Interior designer Mandy Watkins and presenter Aled Samuel travel all over the country to visit some of Wales's most stylish, interesting and unique homes in a new series of Dan Do (Under the Roof) on S4C.

To kick off the series, Mandy and Aled visit an oak timber-framed house on Anglesey; an Edwardian home with a French influence in Llanelli and a 1920s bungalow in Abergavenny with an amazing extension.

Cynefin, the home of Julie Schofield and her husband Jonathan on Anglesey creates quite an impression on Mandy and Aled.

"Cynefin is an oak timber-framed house where the wood is central to the construction and the look of the house. It is an unique home both inside and out," said Aled.

Julie a Jonathan, who are originally from Anglesey, built Cynefin from new after moving back to the area from the Peak District. And although the house is a new build, the couple have used traditional methods and materials in the construction.

Julie said: "We decided to go for the oak frame because it is full of character and a part of the structure of the house. It is honest – you see what the house is when you walk in. It is a natural material which has changed a lot since we moved in. You can see that it has split in some places and it turns and moves – this appeals to me.

"The light is the thing I like the best. I like looking out and feeling that I'm sitting outside even when I'm sitting inside."

Mandy asked Julie what inspires her in terms of the style of the house.

"I don't know what my style is, really," said Julie. "I know what I like – I like things to be natural and classic and muted colours with the occasional pop of colour. I have collected things over the years and I like to choose what goes where."

"The both of us feel very lucky being here. The house itself means a lot to us but coming back home to live... it makes me feel quite emotional."

Also in the programme, Mandy visits a little piece of Paris in the middle of Llanelli. Heidi Schoner has created a chic home which is full of 'joie de vivre' and a tribute to all things French.

Heidi loves French style and Swedish too and she gets a lot of ideas from Instagram.

Mandy said: "The French look can be a difficult one to pull off. Very often people over-do it but Heidi has succeeded in creating lovely rooms."

Aled visits a bungalow built in the 1920s which has had a modern spin thanks to an amazing extension.

"The bungalow is called 'TŶ Bach' (Small House) but thanks to Anna Roberts and her husband Paul, it's not small any more," said Aled. "It's a perfect example of how the right extension can transform a home completely."

Join Mandy and Aled for a look inside some of Wales's most interesting homes in Dan Do which begins on S4C on Wednesday, 16 November.

**Dan Do**
**Wednesday 16 November 8.25, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**